



Check in, catch up and prepare for summer and September'
Frequently asked questions

Taflen ateb i gwestiynau cyffredin rhieni/gwarchodwyr.

1.	A fydd yr ysgol yn gwbl agored o 29 Mehefin 2020?	Na. O Fehefin 29ain 2020 byddwn yn raddol i ddisgyblion gyda uchafswm o 1/3 o ddisgyblion yn yr ysgol ar yr un pryd. Bydd rhain yn cynnwys y plant gweithwyr allweddol.
2.	Rhwng y 29 o Fehefin a'r 24 o Orffennaf sawl diwrnod fy mhlentyn yn yr ysgol?	Bydd y disgyblion yn cael cynnig 2 ddiwrnod ysgol yn ystod y cyfnod yma (9am - 2pm).
3.	Ydw i'n cael dewis pa ddiwrnodau mae fy mhlentyn yn cael dod i'r ysgol?	Na. Mae'n ddrwg gennym ond mae llawer o ffactorau y mae angen eu hystyried, gan gynnwys gofal plant brys i weithwyr allweddol, grwpiau teuluol a sicrhau bod lefelau staffio ffafriol i ateb anghenion pob plentyn.
4.	A oes rhaid i'm plentyn ddod i'r ysgol cyn gwyliau'r haf?	Na. Os yw rhiant neu ofalwr yn dymuno i'w blentyn aros gartref, yna bydd yr ysgol yn cefnogi'r penderfyniad hwn.
5.	Dwi'n weithiwr allweddol. Beth sy'n digwydd rwan?	Os nad yw eich plentyn yn gallu aros gartref gydag aelod arall o'r teulu neu eich darparwr gofal plant arferol, bydd yr ysgol yn cynnig gofal plant brys.
6.	Mae fy mhlentyn neu aelod o'r cartref ar hyn o bryd yn cysgodi, beth fydd yn digwydd?	Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn parhau i ddweud na fydd unrhyw un sy'n cysgodi neu'n byw gyda rhywun sydd â llythyr cysgodi yn gallu mynd i'r ysgol.
7.	Mae fy mhlentyn yn y grŵp sy'n feddygol fregus, beth fydd yn digwydd?	Yng nghyd-destun Covid19, mae unigolion sy'n feddygol fregus yn wynebu risg uwch. Mae'r categori hwn yn cynnwys amrywiaeth o gyflyrau iechyd cronig. Gall plant yn y categori hwn fynd i'r ysgol ond dylent aros gartref lle'n bosib gan fod arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn cydnabod efallai na fydd pellhau cymdeithasol yn bosib.



Check in, catch up and prepare for summer and September'
Frequently asked questions

		Os yr ydych yn amau fod cyflwr iechyd eich plentyn yn feddygol fregus dylech gysylltu gyda'ch meddyg teulu am gyngor.
8.	Allwch chi warantu na fydd fy mhlentyn yn dod i gysylltiad â rhywun sydd â Covid19 yn yr ysgol?	Na. Mae'r safle'r ysgol mor ddiogel a phosib. Mae asesiad risg yn ei le er mwyn ceisio lleihau'r risg o groes-heintio.
9.	Allwch chi sicrhau pellau cymdeithasol o fewn yr ysgol?	Na. Mae'r safle'r ysgol mor ddiogel a phosib. Mae asesiad risg yn ei le er mwyn ceisio lleihau'r risg o groes-heintio. Oherwydd natur anghenion ein disgyblion, bydd yn anodd rheoli pellhau cymdeithasol.
10.	A fydd digon o staff?	Fel ym mhob gweithle, mae gennym rhai staff sy'n cysgodi. Bydd amserlen staffio yn ddibynnol ar nifer y disgyblion a'u anghenion.
11.	A fydd pob aelod o staff yn derbyn prawf gwrth-gyrff?	Bydd 10% o'r staff sydd wedi bod mewn cyswllt â'r disgyblion ers fis Mawrth yn derbyn prawf gwrth-gyrff.
12.	Fydd y staff yn gwisgo PPE? Fydd fy mhlentyn yn cael gwisgo masg?	Bydd y staff yn gwisgo PPE gan gynnwys masgiau a ffedogau drwy'r adeg. Bydd staff yn gwisgo PPE llawn pan yn rhoi gofal personol i ddisgyblion. Nid oes disgwyl i ddisgyblion wisgo masg ond cânt wisgo un os y dymunir.
13.	A fydd ymwelwyr yn cael dod i'r ysgol?	Ni fyddwn yn derbyn ymwelwyr os nad ydynt wir angen bod ar y safle. Bydd angen i ymwelwyr wneud apwyntiad. Rydym yn annog cyfarfodydd rhithiol.
14.	Mae fy mhlentyn yn arddangos symptomau, ydyn nhw yn cael dod i'r ysgol?	Na. Bydd unrhyw un sydd yn arddangos symptomau angen aros adref. Mae'r symptomau yma yn cynnwys tagiad parhaus newydd, gwres uchel neu golli arogl a/neu blas. Dylai'r plentyn hunan ynysu am 7 diwrnod. Dylai pawb sydd yn byw yn y cartref hunan ynysu am 14 diwrnod.



Check in, catch up and prepare for summer and September'
Frequently asked questions

		<i>Os bydd unrhyw un yn eich cartref yn arddangos symptomau bydd angen i chi gysylltu gyda ni yn syth.</i>
15.	Beth sydd yn digwydd os fydd fy mhlentyn yn dechrau arddangos symptomau tra yn yr ysgol?	Os bydd eich plentyn yn dechrau dangos symptomau tra yn yr ysgol bydd aelod o staff yn mynd gyda'ch plentyn i'r ystafell feddygol i aros amdanoch ei casglu o'r ysgol. Bydd rhieni/gwarchodwyr yn cael galwad ffôn yn syth. <i>Bydd rhaid i bob rhiant/gwarchodwr sicrhau fod gan yr ysgol o leiaf tri rhif cyswllt mewn argyfwng.</i>
16.	Beth sydd yn digwydd os bydd yr aelod staff sydd yn gofalu am fy mhlentyn yn arddangos symptomau?	Os bydd aelod staff neu unrhyw blentyn arall sydd yn y dosbarth yn arddangos symptomau tra yn yr ysgol bydd yr aelod staff neu'r plentyn yn cael ei symud i'r ystafell feddygol a bydd trefniadau iddynt fynd adref yn syth. Byddwn yn argymhell iddynt drefnu prawf COVID-19.
17.	Pa weithdrefnau mae'r ysgol yn i wneud i sicrhau dioglewch?	Mae'r nifer o ddisgyblion a staff ymhob ystafell ddosbarth wedi eu cyfyngu yn ddibynnol ar faint yr ystafell er mwyn hwyluso pellhau cymdeithasol. Bydd y staff yn ail-strwythuro'r dosbarthiadau fel bod eitemau angenrheidiol yn unig o fewn yr ystafelloedd. Yr ydym wedi sicrhau fod digon o PPE, sebon, tyweli papur a hylif di-heintio. Bydd arwyddion o gwmpas yr ysgol i atgoffa staff a disgyblion i olchi eu dwylo a phellhau cymdeithasol. Ni fydd mwy na 5 person mewn unrhyw ystafell dosbarth ar un adeg.
18.	Sut y byddwch yn monitro hylendid a golchi dwylo?	Bydd disgwyl i'r disgyblion a'r staff olchi eu dwylo pan yn cyrraedd yr ysgol ac yn rheolaidd yn ystod y dydd gan ddefnyddio



Check in, catch up and prepare for summer and September'
Frequently asked questions

		sebon a dwr. Bydd staff yn cynorthwyo/atgoffa plant i olchi eu dwylo yn iawn.
19.	Bydd fy mhlant yn yr un grwp a plant y gweithwyr allweddol?	Na. Bydd plant y gweithwyr allweddol mewn grwp ar wahân.
20.	Mae fy mhlentyn yn grwp CDAE. Pa fesurau sydd mewn lle?	Mae'r llywodraeth wedi adnabod bod risg uwch i unigolion sydd yn y grwp CDAE (Cymunedau Du ac Asaidd, a lleafrifoedd Ethinig). Credwn fod yr asesiad risg sydd yn ei le yn yr ysgol yn lleihau y risgiau lle bo'n bosib. Ni allwn sicrhau pellhau cymdeithasol, oerhwydd anghenion ein disgyblion, bydd gofyn i rieni a gofawyr benderfynu os byddent am anfon ei plentyn i'r ysgol.
21.	A fydd fy mhlentyn yn ei ystafell ddosbarth arferol, gyda'i staff arferol?	Ni fydd disgyblion o wahanol ddosbarthidau yn cymysgu. Yn ddelfrydol bydd y disgyblion yn eu dosbarthiadau arferol ond ni allwn warantu hyn oherwydd niferoedd staffio.
22.	A fydd fy mhlentyn gyda'i ffrindiau?	Byddwn yn ceisio trefnu fod y disgyblion yn mynychu'r ysgol yng nghwmni ei ffrindiau ond ni allwn warantu hyn.
23.	A fyddwn ni yn cael gwybod pwy fydd y plant yn yr un grwp a fy mhlentyn?	Na. Yn anffodus ni allwn rannu enwau a manylion disgyblion eraill fydd yn mynychu'r ysgol yr un diwrnod a'ch plentyn chi.
24.	Beth os fydd fy mhlentyn yn anhapus yn ei grŵp, a ddim yn setlo?	Byddwn yn trafod unrhyw faterion gyda chi yn bersonol ond ni allwn sicrhau newid mewn grwpiau.
25.	A fydd yr ysgol yn dilyn cwricwlwm arferol?	Na. Byddwn yn defnyddio'r amser hwn i alw mewn, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf.
26.	Beth fydd yn digwydd amser cinio?	Rhaid i bob plentyn sy'n mynychu'r ysgol ddod â chinio wedi'i baratoi ymlaen llaw mewn bocs sydd wedi'i labelu'n glir. Ni ddarperir cinio ysgol ar gyfer unrhyw blentyn ar y safle. Bydd y disgyblion yn bwyta eu cinio yn eu dosbarth.



Check in, catch up and prepare for summer and September'
Frequently asked questions

27.	<p>Beth fydd fy mhlentyn yn ei wneud yn ystod amser chwarae?</p> <p>A fydd fy mhlentyn yn gallu defnyddio'r cyfarpar chwarae tu allan?</p>	<p>Bydd angen i blant aros 2m ar wahân yn eu hardaloedd dynodedig. Deallwn nad yw hyn yn ddelfrydol, ond mae'n rhaid i ni ddilyn y canllawiau gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Na. Ni fydd cyfarpar y buarth yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal trosglwyddo'r feirws.</p>
28.	<p>Beth fydd angen i fy mhlentyn dod i'r ysgol gyda nhw?</p>	<p>Bydd angen i'ch plentyn ddod â bocs bwyd, potel o ddŵr, cot ac unrhyw eitemau gofal personol y byddech chi fel arfer yn eu hanfon gyda nhw. Nid oes angen anfon llyfr cyswllt/dyddiadur ysgol yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>Anfonwch het/cap haul yn ôl yr angen. Bydd angen i'ch plentyn gwisgo eli haul cyn dod i'r ysgol.</p>
29.	<p>A fydd angen i'm plentyn wisgo gwisg ysgol?</p>	<p>Ni fyddwn yn mynnu bod eich plentyn yn gwisgo gwisg ysgol. Y peth pwysicaf yw bod eich plentyn yn gwisgo dillad glan i'r ysgol bob dydd i leihau'r risg o groes-heintio</p>
30.	<p>Gall fy mhlentyn ddod â snac?</p>	<p>Rydym yn hapus i'ch plentyn dod a snac i'r ysgol</p>
31.	<p>A fydd fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol yn llawn amser?</p>	<p>Na. I'r disgyblion hynny sydd tu allan i'r grwp gweithwyr allweddol byddwn yn cynnig 2 ddiwrnod iddynt yn yr ysgol 9yb-2yh. Ni fydd posib i chwi ddewis diwrnod ysgol eich plentyn.</p>
32.	<p>Fydd fy mhlentyn yn cael dod i'r ysgol yn eu tacsï arferol?</p>	<p>Oherwydd rheolau pellhau cymdeithasol ni fydd yn bosib i'ch plentyn ddod i'r ysgol mewn tacsï. Gweler y llythyr am fwy o wybodaeth.</p>
33.	<p>Beth fydd yn digwydd ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd?</p>	<p>Bydd disgyblion oed cynradd yn dod i mewn gan ddefnyddio'r brif fynedfa. Bydd disgyblion oed uwchradd yn defnyddio'r fynedfa yng nghefn yr ysgol. Bydd aelod o staff yn cyfarwyddo un car ar y tro i ollwng disgyblion, a lle bo hynny'n bosibl, dim ond y</p>



Check in, catch up and prepare for summer and September'
Frequently asked questions

		disgybl ddylai adael y car. Bydd system unffordd yn y ddwy fynedfa. Rhaid i geir ddilyn y system unffordd ac aros yn amyneddgar wrth i bob disgybl ddod i mewn i'r ysgol yn ei dro. Mae'r un rheolau yn berthnasol ar ddiwedd y dydd, bydd disgyblion yn gadael yr ystafell ddosbarth gyda staff cymorth ar ôl i chi gyrraedd i'w casglu.
34.	Beth fydd yn digwydd os na fydd rhieni / gofalwyr yn cydymffurfio â'r trefniadau diogelwch ar y safle?	Rydym wedi ein cynghori i gysylltu ag adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol pe bai unrhyw unigolyn yn gwrthod, neu'n methu â chydymffurfio'n barhaus â threfniadau diogelwch ar y safle
35.	Beth fydd oriau agor yr ysgol?	Bydd yr ysgol ar agor ar gyfer y sesiynnau 'Galw mewn' o 9-2yh.
36.	A fydd fy mhlentyn yn dal i gael cymorth cyntaf os bydd angen?	Bydd. Bydd cynorthwydd cymorth cyntaf wedi'i enwi ar y rota. Bydd PPE yn cael ei wisgo gan staff sy'n cyflawni cymorth cyntaf.
37.	Beth os bydd pethau'n newid a phenderfynaf nad wyf am i'm plentyn fynychu'r ysgol y tymor hwn?	Mae hyn yn iawn. Os ydych yn penderfynnu nad ydych am i'ch plentyn fynychu'r ysgol y tymor hwn mwyach, rhowch wybod i ni trwy gysylltu â'r ysgol neu'r athro dosbarth.
38.	A yw'r ysgol yn bod yn rhy ofalus?	Os bu amser erioed i fod yn wylidwrus, yna yn ystod pandemig ledled y byd fyddai hynny! Mae teulu ein hysgol yn bwysig i ni ac rydym am sicrhau y gallwn wneud yr ysgol mor ddiogel â phosibl pan fydd plant a staff yn dychwelyd. Mae hyn yn cymryd amser ond gobeithiwn eich bod yn deall pam ein bod yn cymryd y mesurau rhagofalus hyn.
39.	A fyddaf yn dal i fod mewn cysylltiad ag aelodau staff ar ôl 29 Mehefin os nad yw fy mhlentyn yn yr ysgol?	Byddwch. Bydd yr ysgol yn parhau i fod mewn cyswllt rheolaidd gyda teuluoedd y plant fydd ddim yn mynychu yr ysgol. Bydd yr athrawon yn parhau i ddarparu



Check in, catch up and prepare for summer and September'
Frequently asked questions

		gweithgareddau dysgu o bell. Mae croeso i chi gysylltu a ni os ydych ange cymorth.
40.	Bydd yr ysgol ar agor yn ystod y 5 wythnos gwyliau haf? Beth am gweithwyr allweddol?	Ar hyn o bryd nid oes disgwyl i'r ysgol fod yn agored yn ystod gwyliau haf. Bydd yr Awdurdod yn eich diweddarau ynglyn a trefniadau maes o law.
41.	Beth fydd yn digwydd Mis Medi?	Ar hyn o bryd nid oes unrhyw arweiniad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi wrth i'r sefyllfa ddatblygu.
42.	Mae fy mhlentyn yn gadael yr ysgol eleni, a fydd rhyw fath o ddigwyddiad ymadael?	Bydd yr ysgol yn parhau i adolygu canllawiau y Llywodraeth yng Nghymru a byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y disgyblion sydd yn gadael yn cael y ffarwel y maent yn haeddu.
43.	A fydd fy mhlentyn yn cael adroddiad eleni?	Bydd. Bydd yr adroddiadau yn cael eu hanfon adref yn ystod wythnos olaf y tymor.
44.	Mae fy mhlentyn yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi, a fyddwn yn gallu ymweld â'r ysgol a cwrdd a'r athro doabarth?	Bydd. Mae'r Dirprwy Bennaeth eisoes wedi bod mewn cysylltiad â holl deuluoedd y plant iau, ac fel yr addawyd, bydd mewn cysylltiad yn fuan i drefnu ymweliad â'r ysgol.
45.	A all fy mhlentyn iau sydd i fod i ddechrau ym mis Medi fod mewn gofal plant gweithwyr allweddol brys?	Na. Mae'r gofal plant ar gyfer disgyblion sydd wedi cofrestru yn barod yn unig.